# Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod ar 26 Tachwedd 2003

## Cynigion a gyflwynwyd ar 19 Tachwedd 2003

**Dadl Fer - NDM1726 Alun Ffred Jones (Caernarfon);** Y Wlad Ifanc

**NDM1718 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

1.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Tachwedd 2003 ar y Gorchymyn drafft Rheoliadau Asiantaethau Nyrsys Cymru (Diwygio) 2003, ac

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Asiantaethau Nyrsys Cymru (Diwygio) 2003 yn cael eu gwneud yn unol â'r rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Tachwedd 2003 a'r Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Tachwedd 2003**.**

2.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Tachwedd 2003 ar y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Iechyd (Cymru) 2003 (Cychwyn Rhif 2) 2003 ac

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Deddf Iechyd (Cymru) 2003 (Cychwyn Rhif 2) 2003 yn cael ei wneud yn unol â'r rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Tachwedd 2003.

3.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Tachwedd 2003 ar y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol (Cychwyn) (Cymru) 2003, ac

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol (Cychwyn) (Cymru) 2003 yn cael ei wneud yn unol â'r rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Tachwedd 2003.

**NDM1719 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru (Ardollau) 2003, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Tachwedd 2003.

**NDM1720 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Tachwedd 2003 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru (Ardollau) 2003; ac

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru (Ardollau) 2003 yn cael eu gwneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Tachwedd 2003 a'r Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Tachwedd 2003.

**NDM1721 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Ardal Pysgodfeydd Môr De Cymru (Amrywio) 2003, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Tachwedd 2003.

**NDM1722 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Tachwedd 2003 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Gorchymyn Ardal Pysgodfeydd Môr De Cymru (Amrywio) 2003; ac

2. Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Ardal Pysgodfeydd Môr De Cymru (Amrywio) 2003 yn cael ei wneud yn unol â'r Gorchymyn drafft, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Tachwedd 2003, a'r Arfarniad Rheoliadol y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Tachwedd 2003.

**NDM1723 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Gan weithredu o dan adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol sydd yn Neddf Llywodraeth Leol 2003 i Brif Weinidog y Cynulliad, ac eithrio'r rhai na ellir eu dirprwyo yn y modd hwn yn ôl y gyfraith a'r rhai yn Adran 104 y Ddeddf, sydd wedi'u dirprwyo'n flaenorol gan y Cynulliad ar 15 Hydref 2003.

Ni fydd unrhyw beth yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran gweithredu'r swyddogaethau uchod eu lleihau.

Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan ei wneud yn hysbys y byddant yn cael eu dirprwyo ymhellach i'r Gweinidog priodol yn y Cynulliad, ac i staff pan fo hynny'n berthnasol.

*Gellir dod o hyd i Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 ar y Rhyngrwyd gan ddefnyddio'r cysylltiad hwn: http://www.hmso.gov.uk/acts/acts2003/20030026.pdf*

**NDM1724 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cymeradwyo'r fframwaith ar gyfer diwygio Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE fel y cytunwyd yng Nghyngor Gweinidogion Amaeth yr UE ym mis Medi;

2. Yn croesawu'r hyblygrwydd yn y pecyn diwygio i alluogi Cymru i sicrhau bod y cymorth gan PAC yn y dyfodol yn cael ei gymhwyso i anghenion Cymru a ffermio yng Nghymru;

3. Yn cydnabod bod y pecyn diwygio yn gyson â'r cyfarwyddyd strategol ar gyfer cynaliadwyedd amaethyddiaeth yng Nghymru fel y nodir yn "Ffermio i'r Dyfodol"; ac

4. Yn cydnabod y bydd y penderfyniadau ar ddiwygio'r PAC yng Nghymru yn cael eu llywio gan ymgynghoriad eang.

*Bydd y cysylltiad isod yn mynd â chi i gopi Saesneg yn unig o Reoliad y Cyngor, sef y fframwaith ar gyfer diwygio y cytunwyd arno gan Gyngor Gweinidogion Amaeth yr UE ar 29 Medi 2003:http://europa.eu.int/eur-lex/pri/en/oj/dat/2003/l_270/l_27020031021en00010069.pdf*

*Anfonwyd copïau Cymraeg a Saesneg o'r ddogfen Ffermio i'r Dyfodol mewn e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 19 Tachwedd 2003.*

*Anfonwyd copïau Cymraeg a Saesneg o'r llythyr ymgynghori ar Ddiwygio Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE – Gweithredu yng Nghymru ynghyd ag Atodiadau 1,2 (Saesneg yn unig) ac Atodiad 3 (Saesneg yn unig) mewn e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 19 Tachwedd 2003.*

**NDM1725 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cefnogi'r camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth y Cynulliad, fel llofnodwr y Cytundeb Cenedlaethol ar Lwyth Gwaith Athrawon, i weithredu'r Cytundeb yng Nghymru.

*Anfonwyd copïau Cymraeg a Saesneg o'r cytundeb cenedlaethol ar Godi Safonau a mynd*

*i’r afael â llwyth gwaith athrawon mewn e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 19 Tachwedd.*

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 20 Tachwedd 2003

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM1724**

**1. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ym mhwynt 2, dileu 'Yn croesawu' a rhoi 'Yn nodi' yn ei le.

**2. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 4:

'gyda phob grwp buddiant o fewn amserlen synhwyrol.'

**NDM1725**

**1. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Dileu 'Yn cefnogi' a rhoi 'Yn nodi' yn ei le.

**2. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn gresynu bod diffyg arian i gyllido'r cytundeb yn ddigonol.'

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu 'Yn cefnogi' a rhoi 'Yn nodi' yn ei le

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig

'Yn gresynu methiant Llywodraeth Lafur y Cynulliad i ariannu'r Cytundeb yn llawn gan orfodi cynghorau unwaith eto i ddefnyddio'u hadnoddau prin i ariannu polisi gan y Llywodraeth gan gael effaith negyddol anorfod ar gyllidebau ysgolion.'

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig

'Yn gresynu methiant Llywodraeth Lafur y Cynulliad i ddadlau eu hachos o blaid datganoli cyflogau ac amodau athrawon.'

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 21 Tachwedd 2003

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM 1724**

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 2:

' a ddylai dargedu cefnogi'r economi wledig, yr amgylchedd a lleihad mewn biwrocratiaeth.'

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 3:

'yn cydnabod bod sector ffermio llwyddiannus yn rhan hanfodol o greu dyfodol ffyniannus ar gyfer Cymru wledig, ac'

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn galw ar y Gweinidog i gyflwyno manylion ynghylch y diwygio cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.'

**4. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu cynllun amaeth-amgylchedd eang a bas o fewn fframwaith PAC diwygiedig.'

**5. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau'r hyblygrwydd mwyaf ar gyfer arallgyfeirio amaethyddol â diwydiannau gwledig Cymreig.'

**6. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn nodi dyfodol anodd cymunedau gwledig sy'n ddibynnol ar ddaliadau llaeth neu gymysg, ac yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i sefydlu mecanwaith ar gyfer cyflwyno pris llidiart fferm cynaliadwy a sefydlog ar gyfer llaeth yng Nghymru.'

**7. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn cydnabod bod da byw yn agwedd sylweddol ar ffermio yng Nghymru, mae buches defaid Cymru yn cynrychioli 8% o fuches defaid Ewrop, ac yn galw ar Lywodraeth Lafur y Cynulliad i sicrhau yr ystyrir y nodwedd hon wrth ddiwygio.'

**NDM 1725**

**1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn gresynu bod y £33 miliwn a ddyrannwyd gan Lywodraeth Lafur y Cynulliad i roi'r Cytundeb Cenedlaethol ar waith y flwyddyn nesaf yn llai na'r hyn sydd ei angen ar AALl, ac y bydd yn cael ei lyncu gan bwysau eraill sy'n deillio o setliad llywodraeth leol annigonol. Yn gresynu ymhellach fod y cytundeb hwn wedi'i danariannu yn y flwyddyn ariannol bresennol.'

**2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn gresynu ymhellach fod Llywodraeth Lafur y Cynulliad yn defnyddio cyllid a ddyrannwyd i gadw ysgolion bach a gwledig ar agor i ariannu gwaith rhoi'r Cytundeb Cenedlaethol ar waith yn y flwyddyn bresennol.'